COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD IAU 27 GORFFENNAF 2006 YN NHŶ CARADOG, 1-6 PLAS SANT ANDREAS, CAERDYDD CF10 3BE

Comisiwn

Mr J E Davies (Cadeirydd)
Mrs S Smith
Mr D H Roberts

Ysgrifenyddiaeth

Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr S Halsall
Mr D Carr

Swyddfa Archwilio Cymru (WAO)

Mr M Jones

Gwasanaethau Archwilio Mewnol (IAS) Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mrs G Luce

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 27 Ebrill 2006.

1.1 Cafod dy rhain eu cytuno a'u mabwysiadu yn ddarostyngedig i fân ddiwygiadau.

2. Materion yn codi.

2.1 Adroddwyd bod Merlin erbyn hyn wedi cysylltu â'r Ysgrifenyddiaeth mewn perthynas â gosod y meddalwedd cyfrifyddu ar weinydd y Comisiwn a chymerwyd yn ganiataol bod cynnydd yn cael ei wneud ar y mater hwn. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cydgysylltu â Merlin i fonitro'r cynnydd o ran y gwaith gosod.

2.2 Adroddwyd bod y Comisiwn bellach wedi mabwysiadu bancio ar-lein a ganiatâi i daliadau electronig gael eu gwneud.

2.3 Adroddwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi trafod y cwestiwn o amseru arolygon cyfnodol gyda'r adran noddi. Roedd yr adran noddi yn ystyried y mater a byddai'n adrodd yn ôl i'r Ysgrifenyddiaeth yn y cyfarfod cydgysylltu nesaf ym mis Medi.

3. Cyfrifon Blynyddol 2005-06.

3.1 Nododd y Pwyllgor Gyfrifon Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2005-06, a oedd wedi eu cylchredeg cyn hyn cyn cael eu hardystio.

4. Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol a Llythyr Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru 2005-06

4.1 Rhoddodd Mark Jones fanylion prif bwyntiau'r Llythyr Rheoli a dywedodd ei fod yn adlewyrchu'n dda ar y cyfrifon a gyflwynwyd ar gyfer 2005-06. Ni welwyd unrhyw wendidau materol yn system reoli'r Comisiwn, roedd y Comisiwn wedi cydymffurfio â'i

Ddatganiad Rheoli a'i Femorandwm Ariannol yn ystod y flwyddyn ac wedi cynnal trefniadau llywodraethu a rheoli risg cadarn, gan gydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys. Nodwyd y byddai angen i'r Comisiwn adolygu ei lywodraethu corfforaethol a'i reolaeth risg yn gyson. Roedd pob un o argymhellion 2004-05 wedi eu gweithredu, nid oedd yr un taliad arbennig wedi ei wneud ac ni fu unrhyw wariant gwastraffus nac afradlon. Nodwyd y bu colledion mewn perthynas â lladrad cledriadur y Comisiwn. Roedd yr Atodiad yn cynnwys un argymhelliad y dylai'r Comisiwn gryfhau ei reolaeth dros drosglwyddiadau i'r llyfr arian parod ar ddiwedd pob blwyddyn. Cafodd yr argymhelliad hwn ei wneud oherwydd trosglwyddo rhywfaint o wariant yn anghywir gan y cyfrifydd i lyfr arian parod mis Mawrth pan oedd, mewn gwirionedd, yn groniadau a oedd wedi eu talu yn ystod Ebrill. Roedd y Comisiwn wedi derbyn yr argymhelliad hwn.

4.2 Roedd yr Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol ar gyfer 2005-06 wedi ymdrin â Gwerth Cymru (Caffael). Cafodd fod y Comisiwn yn ymwybodol o'r fenter hon a'i nodau ac amcanion. Er bod y Comisiwn wedi cofrestru ar wefan 'buy4wales' nid oedd eto wedi defnyddio gwasanaethau Gwerth Cymru i wneud pryniadau gan na fu lawer o gyfle i wneud hynny. Er bod cydnabyddiaeth nad oedd pob nwydd a gwasanaeth ar gael i'w prynu drwy gyfrwng Gwerth Cymru, cytunwyd y byddai'r Comisiwn yn gwneud hynny lle bo modd. Awgrymwyd y dylai'r Comisiwn ymchwilio i wasanaethau eraill sydd ar gael o dan y fenter fel 'e-arwerthu' ac 'e-ddyfynnu'.

5. Adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar gyfer 2005-06

5.1 Dywedodd Gill Luce fod yr adroddiad yn cynnwyd Datganiad o Sicrwydd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol, crynodeb o ganfyddiadau archwiliad mewnol 2005-06 a'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2006-07 a oedd wedi ei bennu ar hyn o bryd am 12 diwrnod. Mewn perthynas â'r Cynllun ar gyfer 2006-07, roedd yr adroddiad, fodd bynnag yn codi mater cwmpas cyd-archwilio ac awgrymodd ail-werthuso lefel cwmpas archwilio mewnol y Comisiwn. Barnwyd bod lefel bresennol y cwmpas archwilio'n rhy uchel o ystyried lefel y risg sydd dan sylw. Cynigiodd yr adroddiad y dylai'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol edrych ar y cwmpas cyd-archwilio mewn ymgynghoriad â Swyddfa Archwilio Cymru a llunio strategaeth a chynllun archwilio mewnol diwygiedig at y dyfodol. **Cytunwyd** y byddai Gill Luce yn cydgysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru i benderfynu beth fyddai'n lefel briodol o archwilio ar gyfer y Comisiwn ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

6. Archwiliad Ariannol o Lywodraeth Ganolog a Chyrff y GIG yng Nghymru

6.1 Nododd y Pwyllgor y papur hwn a'r pwyntiau mae'n eu codi.

7. Cwynion (eitem sefydlog)

7.1 Ni chafwyd unrhyw gwynion ers y cyfarfod diwethaf.

8. Unrhyw Fusnes Arall

8.1 Pennwyd y dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf sef dydd Mercher 8 Tachwedd 2006 ar ôl cyfarfod Pwyllgor Llywodraeth Leol y Cynulliad.